



**ADRODDIAD GAN Y
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE
REPORT**

Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ailddeddfu gyda diwygiadau Rheoliadau TSE (Cymru) 2002. Maent yn gorfodi Rheoliad (EC) 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor (fel y'i diwygiwyd) yn gosod rheolau i atal, rheoli a dileu rhai mathau o enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy.

Gwnaed y Rheoliadau hyn ar 2 Mai 2006 o dan y Weithdrefn Weithredol a daethant i rym ar 3 Mai 2006.

Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae angen cywiro'r diffiniadau yn rheoliad 2 fel a ganlyn:

Mae'r testun Saesneg yn diffinio "BSE" fel "bovine spongiform encephalopathy". Mae'r testun Cymraeg cyfatebol yn diffinio "BSE" fel "enseffalopathïau sbyngffurff trosglwyddadwy". Awgrymir mai'r cyfieithiad priodol yw "enseffalopathi sbyngffurf buchol" (sef y derminoleg y bwriedir ei defnyddio yn Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) (Cymru) 2006). [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Y diffiniad o "TSE" yn y testun Saesneg yw "transmissible spongiform encephalopathy"; y testun

Cymraeg cyfatebol yw "enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy" h.y. cafodd ei ddrafftio yn lluosog. [Rheol Sefydlog 11.7(v) a (vi)]

Mae angen talu sylw i'r canlynol yn Atodlen 2:-

Mae paragraff 5(5) o'r testun Saesneg yn cyfeirio at "any sampled sheep or goat" sy'n awgrymu mai enwau unigol yw'r rhain. Caiff y testun Cymraeg ei ddrafftio yn lluosog gan gyfeirio at "defaid neu eifr". [Rheol Sefydlog 11.7(vi)].

Mae paragraff 14 yn cynnwys croesgyfeiriad at y ddarpariaeth yn Atodlen 6 lle y caiff safleoedd torri eu hawdurdodi i dynnu deunydd risg penodedig. Y ddarpariaeth y cyfeirir ati yw paragraff 11 o Atodlen 6. Fodd bynnag, mae paragraff 11 yn delio â stampiau wyn a geifr ifanc. Credir mai'r croesgyfeiriad cywir yw paragraff 13 o Atodlen 6 (Awdurdodi safleoedd torri gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd). [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Mae angen talu sylw i'r canlynol yn Atodlen 3:-

Ym mharagraff 5(4) dylid cyfeirio at "y paragraff hwn" ac nid "y rheoliad hwn". [Rheol Sefydlog 11.7 (v)]

Mae angen talu sylw i'r canlynol yn Atodlen 4:-

Yn nhestun Cymraeg paragraff 4, dylid dileu'r gair "Annex" ar ôl y gair "Atodiad". [Rheol Sefydlog 11.7 (v)].

Mae paragraff 10 o'r testun Saesneg yn cyfeirio at "paragraphs 6(2), 7 or 8". Yn y testun Cymraeg, ceir "ym mharagraffau 6(2), 7(1) neu 8(1)". [Rheol Sefydlog Order 11.7(v) a (vi)].

Mae angen talu sylw i'r canlynol yn Atodlen 6:-

Mae angen cywiro rhifau paragraff 8(2) o'r testun Cymraeg gan nad yw is-baragraff (a) yn y testun Saesneg yn ymddangos felly yn y testun Cymraeg. Caiff paragraff 8(2)(b) o'r testun Saesneg ei rifo fel 8(2)(a) yn y testun Cymraeg a chaiff paragraff 8(2)(c) o'r testun Saesneg ei rifo fel 8(2)(b) yn y testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Mae paragraff 8(2)(c) o'r testun Saesneg yn cyfeirio at unrhyw ddafad neu afr "which has a permanent incisor erupted through the gum". Mae'r testun Cymraeg cyfatebol yn cyfeirio at "un neu fwy o'i dannedd blaen parhaol". Fodd bynnag, mae paragraffau 10 ac 11 o'r testun Cymraeg yn defnyddio'r geiriau "blaenddant parhaol". Byddai cysondeb o ran mynegiant yn ddymunol. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae paragraff 10 o'r testun Saesneg yn cyfeirio at "a sheep or goat"; mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "defaid neu eifr". [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Mae paragraff 13 a 14 yn cyfeirio at awdurdodi safleoedd torri a siopau cigyddion at ddibenion penodol. Caiff y paragraffau eu drafftio yn y modd gorchmynnol. Os mai dyma yw'r bwriad yna mae defnyddio "rhaid" yn briodol ond os mai nod y paragraffau hyn yw caniatáu i'r safleoedd torri a'r siopau cigyddion gael eu hawdurdodi, yna credir y byddai "caiff" yn fwy priodol. [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Yn nhestun Cymraeg paragraff 19(1), mae'r "p" ar goll yn "pwynt 11". [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Mae paragraff 9(2) yn delio â staenio a gwaredu deunydd risg penodedig. Rhaid staenio deunydd risg penodedig ag "asiant lliwio Patent Blue V" neu yn unol ag is-baragraff (2)(a)(ii) "y cyfryw asiant lliwio arall ag y gallo'r Cynulliad Cenedlaethol neu'r Asiantaeth Safonau Bwyd ei gymeradwyo'n ysgrifenedig". Mae testun Saesneg is-baragraff (2)(a)(ii) yn awgrymu y caiff y Cynulliad neu'r Asiantaeth Safonau Bwyd awdurdodi asiant lliwio ar wahân i Patent Blue V. Fodd bynnag, mae'r testun Cymraeg yn awgrymu y bydd yn rhaid i'r asiant lliwio arall fod yn un y gall y Cynulliad neu'r Asiantaeth Safonau Bwyd, neu y caniateir iddynt, ei awdurdodi fel dewis amgen. [Rheol Sefydlog 11.7 (vi)]

Drwy gydol Atodlen 6, caiff "premises" ei gyfieithu fel "safle" a "Mangre". Byddai cysondeb o ran terminoleg yn ddymunol. [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Yn nhestun Cymraeg Atodlen 8 cyfeirir at "rheoliad 17 o Ran IV o Atodlen 6A" a "rheoliadau 4 ac 8 o Atodlen 7" o Reoliadau TSE (Cymru) 2002. Dylai'r rhain gyfeirio at "paragraff 17" a "pharagraffau 4 ac 8" yn y drefn honno. [Rheol Sefydlog 11.7(V)].

Byddai'r gwallau drafftio a'r anghysondebau a nodir uchod wedi bod yn addas i'w cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau. Gan fod y Rheoliadau wedi'u gwneud o dan y Weithdrefn Weithredol nid yw'r dull hwn ar gael a bydd angen deddfwriaeth diwygio.

Sylwadau

Yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2006 ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad "Rheoliadau Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006" (cyfeirnod LC1238). Nid y Cynulliad oedd yn gyfrifol am wneud y Rheoliadau a ystyriwyd ar 28 Chwefror.

Nododd y Pwyllgor hefyd, o ystyried tarddiad y term, y dylid sillafu termau Cymraeg megis "enceffalopathiau" gydag "c" yn hytrach nag "s".

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

6 Mehefin 2006